# LC1411

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer adfer gan awdurdodau bwyd gyfraniadau tuag at y costau o gynnal rheolaethau swyddogol o ran cynhyrchion pysgodfeydd o dan Reoliad y Comisiwn (EC) rhif 854/2004.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae’r diffiniad o "rhoi gyntaf ar y farchnad" wedi ei ddrafftio i gyfeirio at Reoliad 882/2204; y cyfeiriad cywir yw 882/2004. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Credir y dylai rheoliad 2(3) ffurfio’r geiriau llawn i reoliad 2(2). [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Dylai’r croesgyfeiriad at baragraff (3)(a) yn rheoliad 13(4)(a) fod yn gyfeiriad at baragraff 3(b). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain sy’n addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Yn rheoliad 8 y testun Saesneg mae'r rhifau o baragraff (2) ymlaen yn anghywir o ganlyniad i drafferthion â'r feddalwedd ddrafftio. Mae pwynt tebyg yn codi o ran rheoliad 13(4). Gellir cywiro'r broblem hon wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 5 Rhagfyr 2006